O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 2678 (Cy. 266)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau) 2014

*Gwnaed* *30 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *2 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), (2)(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau) 2014.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd i mewn i gilfan y gefnffordd a leolir i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y ffordd fynediad i Eglwys y Santes Fair hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ganol honno.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 30 Medi 2014.

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.